# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Mawrth 2021

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.30-09.50)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.50)

## 2 Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

(09.50-11.20) (Tudalennau 1 - 14)

Dafydd Elis-Thomas, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Steffan Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr,Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Gohebiaeth â'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

(Tudalennau 15 - 26)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Senedd Cymru
Welsh Parliament

5 **Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i drafod tystiolaeth**

(11.20-11.40)

6 **Ymchwiliad i bwy sy'n cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus: trafod yr adroddiad drafft**

(11:40-12.00) (Tudalennau 27 - 64)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.1

Dafydd Elis-Thomas AS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Llywodraeth Cymru

29 Ionawr 2021

Annwyl Dafydd,

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-2022**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 14 Ionawr 2021 i drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22.

Yn y cyfarfod, fe wnaethoch chi gytuno i ddarparu rhagor o fanylion am nifer o faterion. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau a ganlyn erbyn 2 Mawrth, cyn y ddadl ar y Gyllideb ddrafft yn y Cyfarfod Llawn.

**Cyllid ar gyfer sector y celfyddydau**

Yn y cyfarfod, cafodd y Pwyllgor wybod na fyddwch chi'n cynnal dadansoddiad ar hyn o bryd o'r modd y caiff y Gronfa Adferiad Diwylliannol ei gweinyddu. Dywedodd Jason Thomas hefyd fod swyddogion wedi sicrhau bod gwerthusiad manwl yn rhan annatod o'r gronfa adfer diwylliannol ac y byddai'r gwaith hwnnw'n cael ei osod ar dendr. A fyddech cystal â rhoi'r wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor:

- y meini prawf a ddefnyddiwyd i ddyrannu'r cyllid;
- pa sefydliadau a gafodd arian gan y Gronfa; a wnaethoch chi ystyried cyfansoddiad y grŵp a oedd yn gofyn am gyllid? ee nodweddion gwarchodedig
- pryd fydd y gwaith gwerthuso'n cael ei gynnal;
- sut y bydd rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn y gwaith;
- pryd rydych chi'n disgwyl cyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau a
- sut y caiff y gwerthusiad hwn ei ddefnyddio wrth benderfynu ar gyllid ar gyfer y sector yn y dyfodol?

Yn eich papur, rydych yn dweud mai'ch bwriad yw darparu cyllid ychwanegol yn 2021-22 i adfer y sector ond nad oedd penderfyniad wedi'i wneud o ran faint o gyllid fydd ar gael nac o ran y dull o weithredu. A allwch chi ddweud yn fras pryd y caiff y penderfyniad ynghylch y cyllid ychwanegol ei wneud? I ba raddau y bydd y cyllid ychwanegol hwn yn dibynnu ar gael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

**Ailddechrau gweithgareddau diwylliannol**

Yn y cyfarfod, clywodd y Pwyllgor nad oeddech chi'n fodlon dweud pryd y byddwn yn gallu dod at ein gilydd i fwynhau bywyd diwylliannol eto oherwydd nad ydym yn gwybod sut mae’r feirws yn ymddwyn, ac mae’r gwaith ymchwil sydd ar gael wedi cadarnhau hynny eisoes.

Mae'n ddealladwy bod yr ansicrwydd sydd ynghlwm wrth y pandemig yn golygu nad oes modd datblygu unrhyw gynlluniau pendant i ailddechrau digwyddiadau ac ailagor lleoliadau cerddoriaeth, theatrau ac amgueddfeydd. Fodd bynnag, mae angen i'r rhai sy'n gyfrifol am ddigwyddiadau mawr, fel gwyliau cerddoriaeth fyw, gael digon o amser i gynllunio ymlaen llaw. Er mwyn rhoi mwy o eglurder i'r rhai sy'n gweithio yn y sector, a allwch chi amlinellu'r meini prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio wrth benderfynu pryd y caiff gweithgareddau ailddechrau?

A ydych wedi bod yn cael sgyrsiau gyda'r sector ynglŷn â’r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pryd i ailagor lleoliadau?

O ystyried nad ydych yn rhagweld y bydd gweithgareddau diwylliannol yn ailddechrau ar ôl mis Mawrth, pa gynlluniau tymor hir sydd gan Lywodraeth Cymru, Cymru Greadigol a Chyngor y Celfyddydau i sicrhau bod gweithwyr medrus a busnesau hyfyw yn cael cymorth yn y tymor canolig a bod y celfyddydau yn rhan annatod o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer ailadeiladu ac adfer.

A ydych chi'n siarad ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru ynglŷn ag adleoli'r rhai sy'n gweithio yn y sector i gyfleoedd gwaith eraill tra bod lleoliadau'n parhau i fod ar gau?

**Prosiectau buddsoddi cyfalaf CADW**

A allwch chi roi mwy o fanylion am brosiectau buddsoddi cyfalaf CADW sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd a’r prosiectau hynny y mae cynlluniau i fwrw ymlaen â nhw, gan nodi’n fras pryd y disgwylir iddynt gael eu cwblhau? O ystyried y pwysau ar gyllid, a allwch chi hefyd restru'r prosiectau y bu'n rhaid eu hatal am y tro?

**Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

A allwch chi roi mwy o fanylion am y modd y mae'r Amgueddfa Genedlaethol wedi ad-drefnu eu huwch dîm rheoli, fel bod ei gwaith masnachol yn cael ei brif-ffrydio llawer mwy, fel yr esboniwyd yn y cyfarfod? Roedd blaenoriaethau'r Amgueddfa, meddech chi, yn ymwneud llawer mwy â'i gwaith yn y sector preifat a'r trydydd sector a'i gwaith gyda phartneriaethau allanol.

Sut mae'r blaenoriaethau hyn yn gysylltiedig â'r dangosyddion perfformiad allweddol y mae'n ofynnol i'r Amgueddfa adrodd arnynt? Pa gynhyrchion rydych chi'n eu disgwyl gan yr Amgueddfa i ddangos bod ei gwaith masnachol yn gwella a beth yw’r amserlen ar gyfer y rhain?

Fel y gwyddoch, mae’r Pwyllgor wedi bod yn trafod argymhellion yr Adolygiad wedi’i Deilwra o Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Dywedodd yr Adolygiad wedi’i Deilwra:

> ‘Mae’n bwysig gosod LlGC ar drywydd sydd yn gyllidol gynaliadwy.  Mae Llywodraeth Cymru a’r Llyfrgell yn cydnabod bod hyn wedi bod yn anodd yn y blynyddoedd diweddar, yn rhannol oherwydd y pwysau ariannol sydd wedi bod ar Lywodraeth Cymru, a diffyg gallu'r Llywodraeth i wneud ymrwymiadau tymor hirach na blwyddyn.'

Sylwaf fod cyllid refeniw’r Llyfrgell yng nghyllideb ddrafft 2021-21 yn debyg i’r cyllid a ddyrannwyd iddi yng nghyllideb derfynol 2020-21, sef £11.1 miliwn. Yn ystod y cyfarfod, dywedodd Jason Thomas y byddai’r Llywodraeth yn parhau i weithio’n agos iawn gyda’r Llyfrgell Genedlaethol i weld sut y gellir sicrhau

arbedion effeithlonrwydd, sut y gallant geisio cadw at y gyllideb y byddwn yn ei phennu, ond roedd hynny, meddai, yn eithriadol o anodd.

Fel pwyllgor, mae nifer wedi cysylltu â ni'n pryderu am sefyllfa ariannol y Llyfrgell Genedlaethol. Er enghraifft, mae'r FDA wedi ysgrifennu ataf ynglŷn â'r posibilrwydd y bydd rhai'n colli eu swyddi. Dywed:

> 'The Tailored Review of LlGC, commissioned by the Welsh Government, recognises that the current funding model is not sustainable. Indeed, as things stand, the scale of LlGC's deficit puts at risk up to **30 jobs or 13%** of the workforce.'

Mae'n mynd rhagddo i ddweud:

> 'FDA Wales has also called on the Welsh Government to follow over a decade of cuts to grant in aid (GIA) with a new, and sustainable, funding model. A funding model based on a substantial increase in GIA. A funding model to support Welsh culture and protect Welsh jobs.'

Rwyf hefyd yn ymwybodol bod deiseb wedi'i chyflwyno i'r Senedd **'yn galw am gyllid teg i Lyfrgell Genedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru'**.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch amseriad ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad wedi'i Deilwra mae eich swyddogion wedi darparu'r ateb hwn:

> 'Welsh Government officials from Public Bodies Unit and The Partnership Team have been in regular contact with the Chief Executive of The National Library to discuss The Library's response to the Tailored Review recommendations. The regular contact will continue on a monthly basis.
>
> The Library has developed a formal response to the recommendation and wishes to adopt this as an action plan; Welsh Government officials will feed into the action plan where it is in the lead.
>
> The Plan is very much linked to the long-term strategy of the Library and will be monitored regularly, by both the Board of Trustees and the Welsh Government.
>
> The Action Plan will be formally agreed by the end of February 2021.'

O ystyried pryderon y rhai sy'n gweithio i'r Llyfrgell, a chyda hi, a'r nifer fawr o bobl sydd wedi llofnodi'r ddeiseb sy'n gysylltiedig â'r mater, hoffwn bwysleisio bod angen cytuno ar y cynllun gweithredu hwn gyda'r Llyfrgell ar fyrder. Yn y cyfamser, a allwch chi sicrhau'r Pwyllgor na fydd y cynllun gweithredu'n arwain at ddiswyddiadau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru? Fe gytunwch, rwy'n siŵr, fod y sefydliad Cenedlaethol hwn yn hynod bwysig a, chan hynny, rhaid ei gefnogi.

**Adroddiad Gwaddol**

I'n helpu i baratoi ein hadroddiad gwaddol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio sut y bydd y £9 miliwn sy'n weddill yn y cronfeydd canolog yn cael ei wario ar bensaernïaeth ac addasiadau i 'rhwng pedair ac wyth canolfan' sef y model datganoledig ar gyfer  yr oriel gelf gyfoes genedlaethol?

A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y grŵp llywio mewn perthynas â'r Amgueddfa Bêl-droed Genedlaethol?

At ddibenion llywio gwaith y Pwyllgor a'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Gyllideb Ddrafft, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb erbyn 2 Mawrth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid sy'n craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

Yn gywir,

Bethan Sayed AS

**Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

4 Mawrth 2021

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Ionawr yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn y Sesiwn Craffu Cyllidebol gyda'r Pwyllgor ar 14 Ionawr. Rwyf wedi ateb eich pwyntiau yn y drefn y gwnaethoch eu codi yn eich llythyr.

**Cyllid ar gyfer sector y celfyddydau**

***Yn y cyfarfod, cafodd y Pwyllgor wybod na fyddwch chi'n cynnal dadansoddiad ar hyn o bryd o'r modd y caiff y Gronfa Adferiad Diwylliannol ei gweinyddu. Dywedodd Jason Thomas hefyd fod swyddogion wedi sicrhau bod gwerthusiad manwl yn rhan annatod o'r gronfa adfer diwylliannol ac y byddai'r gwaith hwnnw'n cael ei osod ar dendr. A fyddech cystal â rhoi'r wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor:***

- ***y meini prawf a ddefnyddiwyd i ddyrannu'r cyllid:***

Defnyddiwyd y meini prawf canlynol i ddyrannu'r cyllid:

- Gellid gwneud cais am gyllid ar ddwy lefel, hyd at £10k: proses gyflym i sefydliadau llai o faint yn seiliedig ar gostau cymwys; neu rhwng £10k a £150k: proses fanylach yn seiliedig ar gostau cymwys
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn sefydliadau cydnabyddedig yn y sector diwylliant;
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn sefydliadau sy'n gweithredu ac yn cyflogi yng Nghymru;
- Rhaid i ymgeiswyr allu cyflwyno datganiad ariannol llawn wedi'i ardystio neu wedi'i archwilio'n annibynnol ar gyfer o leiaf un flwyddyn, ond nid oes angen iddynt fod wedi'u cofrestru ar gyfer TAW os yw cyfanswm eu trosiant islaw'r trothwy cofrestru;
- Mae angen i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gweithredu'n gynaliadwy cyn mis Mawrth 2020;
- Rhaid i ymgeiswyr ddangos bod eu trosiant neu eu hincwm wedi lleihau'n sylweddol ers 1 Mawrth 2020 o ganlyniad i'r pandemig;
- Ni fydd unrhyw gymorth blaenorol e.e. y Gronfa Cadernid Economaidd gan Lywodraeth Cymru yn y cynnig terfynol yn cael ei ddidynnu, ond rhaid ei ddatgan fel rhan o'ch cais;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Ni fydd y gronfa’n talu costau y rhoddwyd cymorth i'w talu o'r blaen drwy gyllid grant arall fel y Gronfa Cadernid Economaidd na chostau y mae cronfeydd cyhoeddus eraill yn rhoi cymorth i'w talu.

Gwnaethom dderbyn ceisiadau gan y sefydliadau canlynol:

- Amgueddfeydd annibynnol sy'n Achrededig neu sydd â statws Gweithio tuag at Achrediad (Cymhwysedd);
- Archifdai annibynnol (rhai na chânt eu rhedeg gan awdurdod lleol) sy'n Achrededig neu sydd â statws Gweithio tuag at Achrediad;
- Llyfrgelloedd cymunedol a ariennir yn annibynnol;
- Llyfrgelloedd annibynnol.

- ***pa sefydliadau a gafodd arian gan y Gronfa; a wnaethoch chi ystyried cyfansoddiad y grŵp a oedd yn gofyn am gyllid? E.e. nodweddion gwarchodedig.***

Caiff y rhestr lawn o sefydliadau a dderbyniodd grant ei chyhoeddi ar ôl i broses y Gronfa Adferiad Diwylliannol ddod i ben.

- ***pryd fydd y gwaith gwerthuso'n cael ei gynnal;***

Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol. Cyhoeddwyd gwahoddiad i dendro ar GwerthwchiGymru ar 22 Ionawr a daw i ben ar 19 Chwefror. Caiff y contract gwerthuso ei ddyfarnu ganol mis Mawrth 2021 a bydd yn para tan fis Ebrill 2022.

- ***sut y bydd rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn y gwaith;***

Rhagwelir y caiff cyfweliadau â rhanddeiliaid eu cynnal fel rhan o'r fethodoleg werthuso ehangach. Mae grŵp llywio gwerthuso wedi cael ei sefydlu i oruchwylio'r gwaith ymchwil. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys swyddogion a staff o Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru sy'n rhan o'r gwaith o weithredu neu ddadansoddi'r Gronfa Adferiad Diwylliannol.

- ***pryd rydych chi'n disgwyl cyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau:***

Mae dau gyfnod adrodd wedi'u cynllunio ar gyfer y contract gwerthuso. Disgwylir i adroddiad interim gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ystod haf 2021, a chaiff adroddiad terfynol ei gyflwyno ddechrau 2022. Caiff yr adroddiad gwerthuso terfynol ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

- ***sut y caiff y gwerthusiad hwn ei ddefnyddio wrth benderfynu ar gyllid ar gyfer y sector yn y dyfodol?***

Un o amcanion y gwerthusiad yw nodi unrhyw wersi allweddol a ddysgwyd sy'n berthnasol i'r rhaglen hon ac i unrhyw raglenni cymorth posibl eraill yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Bydd y cam interim yn archwilio'r ffordd y cafodd y Gronfa Adferiad Diwylliannol ei rhoi ar waith a'i chyflawni, a bydd yn rhoi tystiolaeth y gellir ei defnyddio i lywio'r ffordd y caiff unrhyw gronfeydd yn y dyfodol eu cyflawni. Caiff canfyddiadau ac argymhellion y camau adrodd interim a therfynol eu defnyddio er mwyn helpu i gyflawni gweithgarwch arall yn y dyfodol.

***Yn eich papur, rydych yn dweud mai'ch bwriad yw darparu cyllid ychwanegol yn 2021-22 i adfer y sector ond nad oedd penderfyniad wedi'i wneud o ran faint o gyllid fydd ar gael nac o ran y dull o weithredu. A allwch chi ddweud yn fras pryd y caiff y penderfyniad ynghylch y cyllid ychwanegol ei wneud?***

O ystyried bod disgwyl i gyfyngiadau ac achosion o gau barhau y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol bresennol, rydym wedi dechrau ar y gwaith cynllunio sy'n ofynnol i estyn y cymorth tan y flwyddyn nesaf. Mae'n anodd cwblhau ein cynlluniau ar y cam cynnar hwn gan fod ystyriaethau pwysig y tu hwnt i'n rheolaeth. Oherwydd natur anrhagweladwy'r argyfwng iechyd y cyhoedd, mae cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf yn heriol dros ben, fel y mae'r sefyllfa ariannol ac economaidd cyn bod y Canghellor yn cyhoeddi Cyllideb y DU ar 3 Mawrth. Mae'n debygol y bydd Cyllideb y DU yn egluro sefyllfa'r DU mewn perthynas â dulliau cymorth allweddol megis y Cynllun Cadw Swyddi a'r potensial am Gronfa Adferiad Diwylliannol ar gyfer y DU (a all arwain at gyllid canlyniadol i Gymru drwy fformiwla Barnett).

***I ba raddau y bydd y cyllid ychwanegol hwn yn dibynnu ar gael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU?***

Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu cymorth estynedig ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU fis Gorffennaf diwethaf. Nid yw'r Gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 yn darparu ar gyfer cyllid ychwanegol i gefnogi'r sector diwylliant. Felly, bydd angen cymorth ychwanegol.

**Ailddechrau gweithgareddau diwylliannol**

***Yn y cyfarfod, clywodd y Pwyllgor nad oeddech chi'n fodlon dweud pryd y byddwn yn gallu dod at ein gilydd i fwynhau bywyd diwylliannol eto oherwydd nad ydym yn gwybod sut mae'r feirws yn ymddwyn, ac mae'r gwaith ymchwil sydd ar gael wedi cadarnhau hynny eisoes.***
***Mae'n ddealladwy bod yr ansicrwydd sydd ynghlwm wrth y pandemig yn golygu nad oes modd datblygu unrhyw gynlluniau pendant i ailddechrau digwyddiadau ac ailagor lleoliadau cerddoriaeth, theatrau ac amgueddfeydd. Fodd bynnag, mae angen i'r rhai sy'n gyfrifol am ddigwyddiadau mawr, fel gwyliau cerddoriaeth fyw, gael digon o amser i gynllunio ymlaen llaw. Er mwyn rhoi mwy o eglurder i'r rhai sy'n gweithio yn y sector, a allwch chi amlinellu'r meini prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio wrth benderfynu pryd y caiff gweithgareddau ailddechrau?***

***A ydych wedi bod yn cael sgyrsiau gyda'r sector ynglŷn â'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pryd i ailagor lleoliadau?***
Mae cynllun rheoli wedi cael ei lunio sy'n rhoi fframwaith ar gyfer ailagor. Caiff digwyddiadau prawf eu cynnal pan fyddwn yn dychwelyd i lefel 2, os bydd y cynghorwyr meddygol a gwyddonol yn cadarnhau ei bod hi'n dal yn ddiogel gwneud hynny ar y pryd. Fel rhan o'r broses ailagor, byddwn yn rhoi canllawiau ar waith, wrth gwrs, er mwyn helpu'r sectorau i wneud hynny'n ddiogel. Drwy gydol y pandemig, rydym wedi ymgysylltu'n barhaus â'r sector chwaraeon a diwylliant, gan gynnal cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau, ac yn cael cyfle i fwydo i mewn i'r broses gynllunio.

***O ystyried nad ydych yn rhagweld y bydd gweithgareddau diwylliannol yn ailddechrau ar ôl mis Mawrth, pa gynlluniau tymor hir sydd gan Lywodraeth Cymru, Cymru Greadigol a Chyngor y Celfyddydau i sicrhau bod gweithwyr medrus a busnesau hyfyw yn cael cymorth yn y tymor canolig a bod y celfyddydau yn rhan annatod o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer ailadeiladu ac adfer?***

Bwriedir i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol gynnig cymorth hanfodol i'r sector sydd wedi colli refeniw sylweddol oherwydd y pandemig, ond hefyd i'w baratoi’n well ar gyfer y dyfodol. Bydd y cyllid yn helpu sefydliadau ac unigolion yn y sector. Bwriedir i'r cyllid helpu'r sector i ddod yn hyfyw yn y tymor canolig i'r tymor hir fel rhan o'i ymdrechion adfer i sicrhau cynaliadwyedd. Mae'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn ein helpu i gydnabod y bydd angen proffesiynoldeb, profiad, brwdfrydedd a gweledigaeth y gweithwyr proffesiynol hyn arnom er mwyn ein helpu i ddod ynghyd ac ailadeiladu ar ôl i'r argyfwng iechyd y cyhoedd ddod i ben. Mae'r gronfa gweithwyr llawrydd yn hanfodol er mwyn helpu'r sector i gadw'r sgiliau sydd ganddo eisoes, a'i helpu i ddatblygu ymhellach er mwyn manteisio ar unrhyw gyfleoedd a risgiau a all godi yn y dyfodol. Gall y gronfa hefyd helpu sefydliadau i ddatblygu neu brynu'r seilwaith sydd ei angen i sicrhau cynaliadwyedd.

Ochr yn ochr â'r Gronfa Adferiad Diwylliannol mae dyraniad ychwanegol o £1m yn y Drydedd Gyllideb Atodol er mwyn cyflymu rhaglen Clwstwr, sy'n annog gwaith ymchwil a datblygu ym maes cynhyrchu'r cyfryngau yng Nghymru. Bydd y cyllid hwn yn galluogi Cymru Greadigol i ddatblygu rhaglen datblygu sgiliau/talent, cronfa datblygu'r sgrin (ffilm a theledu) a chronfa datblygu digidol. Byddai'r rhaglenni hyn yn arwain at gyfleoedd twf sylweddol ac yn cyfrannu at frand cenedlaethol cryf, gan helpu i hyrwyddo Cymru a'i diwylliant a'i thalent i'r byd.

***A ydych chi'n siarad ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru ynglŷn ag adleoli'r rhai sy'n gweithio yn y sector i gyfleoedd gwaith eraill tra bod lleoliadau'n parhau i fod ar gau?***

Un rhan allweddol o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yw'r disgwyliad y bydd sefydliadau ac unigolion yn ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar Gontract Diwylliannol neu Addewid Gweithwyr Llawrydd. Drwy'r gwaith hwn, y gobaith yw y caiff manteision cymunedol ehangach eu gwireddu. Tra na all rhai lleoliadau a sefydliadau gyflawni eu swyddogaethau arferol, mae llawer o staff ac adnoddau wedi cael eu hadleoli i feysydd eraill. Mae staff wedi bod yn cefnogi ymdrechion ehangach ym meysydd llywodraeth leol ac iechyd y cyhoedd, megis cefnogi cynllun Profi Olrhain Diogelu neu ganolfannau brechu. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn wedi cael ei gydgysylltu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru ond mae llawer o sefydliadau wedi archwilio cyfleoedd gwirfoddoli yn uniongyrchol.

## Prosiectau buddsoddi cyfalaf CADW

***A allwch chi roi mwy o fanylion am brosiectau buddsoddi cyfalaf CADW sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd a’r prosiectau hynny y mae cynlluniau i fwrw ymlaen â nhw, gan nodi’n fras pryd y disgwylir iddynt gael eu cwblhau?***

Ar hyn o bryd, mae Cadw yn rheoli'r prosiectau mawr canlynol sydd wedi costio mwy na £1m:

| Safle | Natur y prosiect | Gwerth yn fras | Blwyddyn |
|---|---|---|---|
| **Porth y Brenin Castell Caernarfon** | Ailddatblygu'r porthdy gan gynnwys cadwraeth, gosod lloriau newydd a lifft, gwaith dehongli newydd, llwyfannau gwylio a chaffi | £3.715m | 2022 |
| **Porth Mawr Caernarfon** | Cadwraeth, gosod lifft a grisiau troellog er mwyn caniatáu mynediad i'r cyhoedd i ran o furiau'r dref yn ogystal | £1.2m | 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | â chreu dwy fflat wyliau hunanddarpar fach | | |
| **Castell Caerffili** | Sawl prosiect gan gynnwys cyfleuster arlwyo newydd, ailgyflwyno'r Neuadd Fawr a gwaith dehongli newydd | Tua £5.5m | 2023 |
| **Llys Tretŵr** | Cadwraeth ac addasu'r Ysgubor Fawr yn gyfleuster newydd i ymwelwyr a chaffi | £1.2m | 2022 |
| **Abaty Tyndyrn** | Rhaglen gadwraeth fawr yn canolbwyntio ar yr Eglwys Abadol | Tua £4m | 2024 |
| **Castell Coety** | Rhaglen gadwraeth fawr ar bob rhan o'r heneb | £1.4m | 2022 |
| **Mynachlog Nedd** | Rhaglen gadwraeth ar yr Eglwys Abadol a'r plasty Tuduraidd dros bum mlynedd. Bwriedir i bob cam gael ei gwblhau erbyn dechrau 2023 | £1.5m | 2023 |

Mae nifer o brosiectau llai o faint yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd hefyd, gan gynnwys gosod canllawiau newydd ond cynnil ar y tyrau a'r rhodfeydd pen mur yng Nghestyll Conwy a Harlech a lifft newydd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn Llys yr Esgob, Tyddewi, er mwyn gwella hygyrchedd ffisegol.

Mae'r rhaglen uchod yn uchelgeisiol ac yn heriol iawn a bydd yn cadw'r timau perthnasol o fewn Cadw yn brysur am beth amser. Fodd bynnag, mae Cadw eisoes yn ystyried cyfleoedd yn y dyfodol ac mae rhywfaint o waith cynllunio cynnar eisoes yn mynd rhagddo, ond nid oes penderfyniadau wedi'u gwneud eto mewn perthynas â rhagor o brosiectau mawr.

***O ystyried y pwysau ar gyllid, a allwch chi hefyd restru'r prosiectau y bu'n rhaid eu hatal am y tro?***

Nid ydym wedi atal unrhyw brosiectau cyfalaf arfaethedig yn Cadw am y tro.

**<u>Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru</u>**

***A allwch chi roi mwy o fanylion am y modd y mae'r Amgueddfa Genedlaethol wedi ad-drefnu eu huwch dîm rheoli, fel bod ei gwaith masnachol yn cael ei brif-ffrydio llawer mwy, fel yr esboniwyd yn y cyfarfod? Roedd blaenoriaethau'r Amgueddfa, meddech chi, yn ymwneud llawer mwy â'i gwaith yn y sector preifat a'r trydydd sector a'i gwaith gyda phartneriaethau allanol.***

Ar ôl methu â phenodi Cyfarwyddwr Masnachol yn dilyn dwy ymgyrch recriwtio, ac er iddi gynyddu'r pecyn cydnabyddiaeth ariannol mewn ymgais i ddenu mwy o ymgeiswyr, penderfynodd Amgueddfa Cymru ad-drefnu ei Huwch Dîm Arwain er mwyn mynd i'r afael ag argymhelliad Arolwg Thurley drwy ddull gwahanol.

Yn ddiweddar, penododd yr Amgueddfa Gyfarwyddwr Datblygu Busnes, y bydd ei rôl yn cynnwys cyfrifoldeb am incwm masnachol a chodi arian. Disgwylir i'r Cyfarwyddwr newydd ddechrau yn ei swydd ym mis Ebrill 2021.

Rwyf eisoes wedi cytuno ag Amgueddfa Cymru bod y camau y mae wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn briodol ac ni fyddaf yn gofyn am ddiweddariadau pellach ganddi mewn perthynas i'r penodiad hwn.

***Sut mae'r blaenoriaethau hyn yn gysylltiedig â'r dangosyddion perfformiad allweddol y mae'n ofynnol i'r Amgueddfa adrodd arnynt? Pa gynhyrchion rydych chi'n eu disgwyl gan yr Amgueddfa i ddangos bod ei gwaith masnachol yn gwella a beth yw'r amserlen ar gyfer y rhain?***

Fel rhan o gyfarfodydd monitro chwarterol Llywodraeth Cymru ag Amgueddfa Cymru, cawn adroddiadau ar ddangosyddion perfformiad allweddol ac amcanion strategol.

O dan ail amcan strategol Amgueddfa Cymru: Datblygu, cynnal ac arallgyfeirio ein hadnoddau, mae'r Amgueddfa'n cyflwyno adroddiadau ar gyflawniadau o ran codi arian – gan gynnwys cymynroddion, rhoddion mawr ac unigol, a cheisiadau llwyddiannus am arian gan ymddiriedolaethau, sefydliadau a darparwyr grantiau.

O dan y dangosyddion perfformiad allweddol, mae'r adroddiadau'n nodi cyfanswm yr incwm net o gasgliadau, digwyddiadau ymchwil, mentrau (incwm masnachol) a gweithgarwch codi refeniw a rhoddion anghyfyngedig.

Rwy'n fodlon bod y lefel hon o fanylder yn rhoi'r trosolwg sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru er mwyn monitro cyflawniadau Amgueddfa Cymru yn y maes hwn.

Hoffwn nodi bod Amgueddfa Cymru wedi gwneud cynnydd da o ran gwella ei hincwm masnachol ers i argymhellion Arolwg Thurley gael eu cyhoeddi. Arweiniodd ailddatblygiad Sain Ffagan at gynnydd sylweddol mewn gweithgarwch ym maes mentrau ac, yn y tymor hwy, rhagwelir y bydd y gwaith o ailddatblygu ei safle yn Llanberis yn arwain at ganlyniadau a fydd yr un mor drawiadol.

***Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi bod yn trafod argymhellion yr Adolygiad wedi'i Deilwra o Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Dywedodd yr Adolygiad wedi'i Deilwra:***

***'Mae'n bwysig gosod LlGC ar drywydd sydd yn gyllidol gynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell yn cydnabod bod hyn wedi bod yn anodd yn y blynyddoedd diweddar, yn rhannol oherwydd y pwysau ariannol sydd wedi bod ar Lywodraeth Cymru, a diffyg gallu'r Llywodraeth i wneud ymrwymiadau tymor hirach na blwyddyn.'***
***Sylwaf fod cyllid refeniw'r Llyfrgell yng nghyllideb ddrafft 2021-21 yn debyg i'r cyllid a ddyrannwyd iddi yng nghyllideb derfynol 2020-21, sef £11.1 miliwn. Yn ystod y cyfarfod, dywedodd Jason Thomas y byddai'r Llywodraeth yn parhau i weithio'n agos iawn gyda'r Llyfrgell Genedlaethol i weld sut y gellir sicrhau arbedion effeithlonrwydd, sut y gallant geisio cadw at y gyllideb y byddwn yn ei phennu, ond roedd hynny, meddai, yn eithriadol o anodd.***

***Fel pwyllgor, mae nifer wedi cysylltu â ni'n pryderu am sefyllfa ariannol y Llyfrgell Genedlaethol. Er enghraifft, mae'r FDA wedi ysgrifennu ataf ynglŷn â'r posibilrwydd y bydd rhai'n colli eu swyddi. Dywed:***

***'The Tailored Review of LlGC, commissioned by the Welsh Government, recognises that the current funding model is not sustainable. Indeed, as things stand, the scale of LlGC's deficit puts at risk up to 30 jobs or 13% of the workforce.'***

***Mae'n mynd rhagddo i ddweud: 'FDA Wales has also called on the Welsh Government to follow over a decade of cuts to grant in aid (GIA) with a new, and sustainable, funding model. A funding model based on a substantial increase in GIA. A funding model to support Welsh culture and protect Welsh jobs.'***

***Rwyf hefyd yn ymwybodol bod deiseb wedi'i chyflwyno i'r Senedd 'yn galw am gyllid teg i Lyfrgell Genedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru'.***

Byddwch yn ymwybodol o'r cyhoeddiad ynghylch cyllid ychwanegol gwerth £6.2m dros ddwy flynedd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru. Tynnwyd sylw at hyn mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 3 Chwefror. Gwnaed y cyhoeddiad hwn ar ôl cyfnod ymgynghori estynedig rhwng Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell a'r Amgueddfa a'n galluogodd i ddeall y pwysau uniongyrchol sydd arnynt o ran refeniw a chyfalaf.

Mae'r cyllid yn cwmpasu 2020-21 a 2021-22 a bydd yn lliniaru'r risg o golli swyddi a hefyd yn helpu'r ddau sefydliad i dalu costau gweithredol.

Gan mai dim ond am flwyddyn y caiff setliadau Llywodraeth Cymru eu darparu ar hyn o bryd, mae'n amhosibl cynnig ymrwymiadau yn y tymor hwy ar hyn o bryd.

***Mewn ymateb i ymholiad ynghylch amseriad ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad wedi'i Deilwra mae eich swyddogion wedi darparu'r ateb hwn:***

***'Welsh Government officials from Public Bodies Unit and The Partnership Team have been in regular contact with the Chief Executive of The National Library to discuss The Library's response to the Tailored Review recommendations. The regular contact will continue on a monthly basis.***

***The Library has developed a formal response to the recommendation and wishes to adopt this as an action plan; Welsh Government officials will feed into the action plan where it is in the lead.***

***The Plan is very much linked to the long-term strategy of the Library and will be monitored regularly, by both the Board of Trustees and the Welsh Government. The Action Plan will be formally agreed by the end of February 2021.'***

***O ystyried pryderon y rhai sy'n gweithio i'r Llyfrgell, a chyda hi, a'r nifer fawr o bobl sydd wedi llofnodi'r ddeiseb sy'n gysylltiedig â'r mater, hoffwn bwysleisio bod angen cytuno ar y cynllun gweithredu hwn gyda'r Llyfrgell ar fyrder. Yn y cyfamser, a allwch chi sicrhau'r Pwyllgor na fydd y cynllun gweithredu'n arwain at ddiswyddiadau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru? Fe gytunwch, rwy'n siŵr, fod y sefydliad Cenedlaethol hwn yn hynod bwysig a, chan hynny, rhaid ei gefnogi.***

Mae'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cyllid ychwanegol yn cynnwys gofyniad na fydd swyddi'n cael eu dileu'n orfodol yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Mae'r cyllid ychwanegol yn cynnwys £0.75m ar gyfer 2021-22 a fydd yn cefnogi'r Llyfrgell wrth iddi fynd i'r afael â chanfyddiadau'r Adolygiad Pwrpasol ac wrth iddi fwrw ymlaen â'r broses o roi'r argymhellion ar waith.

Mae cynnydd da eisoes yn cael ei wneud mewn perthynas â llawer o'r argymhellion, a chaf ar ddeall y bydd yr ymrwymiad i gytuno ar gynllun gweithredu yn ffurfiol erbyn diwedd mis Chwefror yn cael ei gyflawni. Bydd swyddogion yn anfon copi o'r cynllun gweithredu ymlaen at ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor maes o law.

**Adroddiad Gwaddol**

***I'n helpu i baratoi ein hadroddiad gwaddol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio sut y bydd y £9 miliwn sy'n weddill yn y cronfeydd canolog yn cael ei wario ar***

***bensaernïaeth ac addasiadau i 'rhwng pedair ac wyth canolfan' sef y model datganoledig ar gyfer yr oriel gelf gyfoes genedlaethol?***

Mae'r gwaith ar yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol yn parhau, ac oherwydd y pwysau ychwanegol sydd ar y prosiect yn sgil y pandemig, mae'r gwaith cwmpasu wedi cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben ac yn darparu ar gyfer unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cyfyngiadau ar leoliadau mewn ymateb i'r pandemig. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grŵp llywio allanol i geisio cytuno ar gwmpas a strwythur y ddau gam a fydd yn rhan o'r prosiect. Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig ddechrau mis Rhagfyr yn rhoi diweddariad – mae copi o'r datganiad i'w weld yma https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-yr-wybodaeth-ddiweddaraf-am-oriel-gelf-gyfoes-genedlaethol-amgueddfa-bel

***A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y grŵp llywio mewn perthynas â'r Amgueddfa Bêl-droed Genedlaethol?***

Er bod y pandemig wedi atal cynnydd, penodwyd ymgynghorwyr Fourth Street yn yr haf i lunio cynllun busnes manwl ac achos dros fuddsoddi. Prif ffocws y gwaith yw sicrhau bod cymaint o le â phosibl ar gael yn adeilad presennol yr amgueddfa ac adleoli casgliadau wrth gefn. Mae'r cynllun yn gyflawn ac rydym yn aros iddo gael ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Wrecsam a grŵp llywio'r prosiect.
Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig ddechrau mis Rhagfyr yn rhoi diweddariad – mae copi o'r datganiad i'w weld yma https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-yr-wybodaeth-ddiweddaraf-am-oriel-gelf-gyfoes-genedlaethol-amgueddfa-bel

Gobeithio bod y sylwadau pellach hyn yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon